***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3564

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2007

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004(**1**) yn unol â pharagraffau (2) i (6) isod.

(2) Yn rheoliad 2(3) dileer is-baragraff (b).

(3) Yn lle rheoliad 7 a'i bennawd rhodder y canlynol —

"**Darparu canlyniadau asesiadau cyfnod allweddol i Weinidogion Cymru**

Ar neu cyn y dyddiad a bennir yn y canllawiau ar yr Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd, rhaid i'r awdurdod ddarparu bob blwyddyn i Weinidogion Cymru yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiadau statudol y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 mewn perthynas â'r holl ysgolion y mae'n eu cynnal ac y mae ganddynt ddisgyblion cofrestredig yn y cyfnod allweddol cyntaf sy'n gymwys i gael asesiadau statudol ym mlwyddyn adrodd yr ysgol.".

(4) Yn lle paragraff 2 o Atodlen 1, rhodder y paragraff canlynol —

"O ran pob disgybl o'r fath, canlyniadau ei asesiadau statudol ac, os nad yw rhai o'r canlyniadau hynny neu'r cyfan ohonynt ar gael, a oedd y disgybl wedi'i esemptio o'r asesiadau o dan adrannau 113 neu 114 o Ddeddf 2002 neu a yw'r ffaith nad yw canlyniadau ei asesiadau statudol ar gael oherwydd rhesymau gwahanol i'w esemptiad o dan adrannau 113 neu 114 o Ddeddf 2002.".

(5) Ym mharagraff 1 yn Rhan 1 o Atodlen 3 dileer is-baragraff (d).

(6) Ym mharagraff 2 yn Rhan 2 o Atodlen 3 dileer is-baragraff (d).

(**1**) O.S.2004/1025 (Cy.122), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy.253), O.S. 2005/1396 (Cy.110) ac O.S. 2005/3239 (Cy.244).